Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cronfa Iechyd Meddwl a Llesiant 2026/27

## Addysg bellach

Fersiwn 1

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2026

This document is also available in English | Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

**www.medr.cymru**

Noddir gan **Llywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

## Rhagair

1. Mae'r gronfa hon yn un o'r pum ffrwd gyllido sy'n ffurfio'r Gronfa Cymorth a Llesiant.

2. Mae'r cyhoeddiad hwn yn cadarnhau dyraniad o £4,050,000 o gyllid uniongyrchol i'r sector addysg bellach (AB) ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 i gefnogi mentrau iechyd meddwl a llesiant ar gyfer dysgwyr a staff. Mae hefyd yn nodi disgwyliadau Medr ar gyfer defnyddio a monitro cyllid Iechyd Meddwl a Llesiant AB ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27.

## Cyd-destun cyllido

3. Mae'r dyraniad yn cefnogi darparwyr i gyflenwi darpariaeth iechyd meddwl a llesiant effeithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n bodloni anghenion eu dysgwyr.

4. Mae'r cyllid hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at:
    - Amod Rheoleiddio Llesiant Staff a Dysgwyr sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gael trefniadau effeithiol, gan gynnwys polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau, sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi llesiant a diogelwch staff a dysgwyr gan ddefnyddio hunanwerthusiadau parhaus i nodi cryfderau, bylchau a risgiau sy'n dod i'r amlwg er mwyn cynllunio gweithgareddau;
    - Fframwaith Iechyd Meddwl a Llesiant Cyffredin Medr sy'n darparu dull cyffredin o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant ar draws addysg drydyddol yng Nghymru. Mae'n cefnogi datblygiad Map Cymorth sy'n helpu dysgwyr i gael mynediad at gymorth priodol, o ymyrraeth gynnar hyd at ymateb i argyfwng.

5. Ar gyfer 2026/27, bydd Medr yn parhau i gefnogi nifer o brosiectau cenedlaethol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau iechyd meddwl a llesiant. Bydd y rhain yn cael eu cyllido ar wahân drwy lythyr grant.

6. Mae Medr yn croesawu gwaith y sector AB i ymgorffori ymagwedd sefydliadol at Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE) wrth ymarfer, yn ogystal â gwaith i barhau i ehangu mynegai difrifoldeb iechyd meddwl. Rydym yn annog darparwyr AB i barhau i ddatblygu eu dulliau ac i rannu'r hyn y maent yn ei ddysgu, lle bo'n briodol.

7. Mae tystiolaeth o adolygiadau Estyn o Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16-19 oed mewn AB (2023) a Deall, Cefnogi a Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol (2025) yn bwysig a dylai colegau adolygu eu polisïau, eu gweithdrefnau a'u gweithgareddau eu hunain i sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth i'r argymhellion.

8. Mae Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd parhaus cefnogaeth gref i iechyd meddwl a llesiant ar draws y sector ôl-16. Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth iechyd meddwl a llesiant 2025 i 2035. Mae Medr yn disgwyl i bob darparydd AB ystyried y strategaeth iechyd meddwl a llesiant genedlaethol wrth ddatblygu ac adolygu ei strategaethau iechyd a llesiant, ei ddulliau o atal hunanladdiad a hunan-niwed a'i bolisïau llesiant.

9. Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio i Gymru. Mae Medr yn annog pob darparydd AB i gymryd rhan yn y Gymuned Ymarfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed, a chyfrannu ati.

10. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr ystyried effeithiau croestoriadol ar lesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr a staff. Dylai darparwyr felly ystyried sut mae'r cyllid iechyd meddwl a llesiant yn cyfrannu at y cynlluniau cydraddoldeb canlynol gan Lywodraeth Cymru:
    - Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol;
    - Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru;
    - Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026 a Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a cham-drin rhywiol: glasbrint lefel uchel o gynllun gweithredu;
    - Cynllun Hawliau Pobl Anabl: 2025 i 2035

11. Rhaid i ddarparwyr AB ddefnyddio canfyddiadau a chasgliad eu hasesiadau effaith cydraddoldeb eu hunain i lywio cynlluniau, polisïau a gweithdrefnau i ddangos bod camau gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth.

## Dyraniadau cyllid

12. Yn 2026/27 bydd £4,050,000 yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i sefydliadau AB fel yr amlinellir yn Nhabl 1, ar gyfer staffio rheng flaen cymorth llesiant, meithrin gallu, cwnsela i gefnogi staff a dysgwyr, a gweithgareddau iechyd meddwl a llesiant a fydd o fudd i ddysgwyr a staff ar draws y sector.

13. Mae dyraniadau cyllid wedi'u pennu drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar fformiwla, gan ymgorffori niferoedd dysgwyr amser llawn a rhan-amser, ynghyd â ffactorau amddifadedd a theneurwydd y boblogaeth. Mae ffactor diogelu wedi'i gymhwyso i sicrhau nad oes yr un darparydd yn profi gostyngiad o fwy na -2% o gymharu â'i ddyraniad ar gyfer 2025/26.

**Tabl 1: Dyraniadau Iechyd Meddwl a Llesiant Addysg Bellach**

| Darparydd | Dyraniad 2026/27 |
|---|---:|
| Coleg Penybont | £216,827 |
| Coleg Sir Gâr | £250,693 |
| Coleg Gwent | £541,070 |
| Grŵp Llandrillo Menai | £449,134 |
| Coleg Merthyr Tudful | £170,286 |
| Coleg Sir Benfro | £187,653 |
| Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant | £148,161 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | £330,936 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | £468,139 |
| Coleg Cambria | £483,850 |
| Coleg y Cymoedd | £404,986 |
| Grŵp Colegau NPTC | £310,189 |
| Addysg Oedolion Cymru | £88,077 |

Dyraniad Tabl 1 i'w dalu'n llawn ym mis Ebrill 2027.

14. Ar gyfer darparwyr AB sy'n ddarparwyr addysg uwch cofrestredig ac sy'n derbyn yn cyllid addysg uwch Medr yn uniongyrchol, gwneir dyraniad ar wahân i gefnogi

dysgwyr addysg uwch fel yr amlinellir yn Nhabl 2. Ar gyfer y darparwyr hyn, rhaid defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi dysgwyr AU yn benodol a dylid adrodd ar weithgarwch drwy ddefnyddio'r templed monitro a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Tabl 2: Dyraniadau Iechyd Meddwl a Llesiant i Sefydliadau Addysg Bellach sy'n ddarparwyr Addysg Uwch cofrestredig**

| Darparydd | Dyraniad 2026/27 |
|---|---:|
| Grŵp Llandrillo Menai | £11,634 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | £439 |
| Coleg Cambria | £524 |
| Grŵp Colegau NPTC | £1,587 |

Nodiadau: Data cofnod myfyrwyr HESA wedi'u dilysu ar gyfer 2024/25. Nifer y pennau - poblogaeth gofrestru safonol HESA, pob dull a lefel, wedi'i ostwng i nifer y pennau lle bo myfyrwyr wedi ymrestru ar fwy nag un cwrs.

Dyraniad Tabl 2 i'w dalu'n llawn ym mis Rhagfyr 2026.

## Defnydd o'r cyllid

15. Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod cyllid Iechyd Meddwl a Llesiant yn cael ei ddefnyddio i roi cefnogaeth effeithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n bodloni anghenion eu dysgwyr a'u staff.

16. Gellir defnyddio cyllid i gefnogi ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys (ymhlith eraill):
    - Talu costau cyflog staff sy'n cefnogi iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol staff a dysgwyr;
    - Ehangu gwasanaethau llesiant mewnol a allai gynnwys darparu cymorth iechyd meddwl, cwnsela ac ymyriadau therapiwtig (lle bo'n briodol) un wrth un ac mewn grŵp, a gwasanaethau galw heibio, gweithdai a rhaglenni seicoaddysgiadol;
    - Datblygu ymagweddau coleg cyfan at lesiant neu ddatblygiadau newydd;
    - Ymgorffori iechyd meddwl a llesiant yn y cwricwlwm;
    - Mentrau i gefnogi gwydnwch, strategaethau ymdopi a hunanreolaeth ar gyfer dysgwyr sy'n profi heriau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol;
    - Gweithgareddau sy'n anelu i leihau nifer yr achosion sy'n gwaethygu i lefel argyfwng;
    - Gwella darpariaeth gwasanaethau cydgysylltiedig a chefnogaeth ar gyfer pontio dysgwyr;
    - Hyfforddiant i staff allu adnabod ac ymateb i anghenion iechyd meddwl a chyflwyno ymarfer cynhwysol sy'n ystyriol o drawma;
    - Cryfhau llwybrau atgyfeirio a phartneriaethau â gwasanaethau allanol a gwaith partneriaeth cydweithredol;
    - Datblygu adnoddau a chanllawiau dwyieithog er budd y coleg cyfan, gan gynnwys ar gyfer dysgu seiliedig ar waith ac addysg oedolion; gallai hyn hefyd gynnwys addasu a chyfieithu adnoddau sy'n bodoli eisoes;
    - Gellir defnyddio cyllid hefyd i ryddhau amser staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau, i gaffael gwasanaethau arbenigol gan gynnwys hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori, ac i gynhyrchu a chyfieithu adnoddau.

17. Ni ddylid defnyddio cyllid ar gyfer gwariant cyfalaf (e.e. prynu offer). Ni gwariant o'r fath yn gymwys ar gyfer cyllid.

18. Rydym yn disgwyl i bob sefydliad ganolbwyntio ar sicrhau canlyniadau cynaliadwy, ac er ein bod yn croesawu mentrau newydd sy'n cael eu datblygu, mae'n bwysig adeiladu ar fentrau blaenorol a'u hymgorffori, gan gynnwys y rhai hynny a ddatblygwyd yn rhan o brosiectau cenedlaethol, sy'n cynnwys:
    - Llesiant egnïol
    - Prosiect (Metaverse) cwricwlwm gwrth-hiliaeth;
    - Prosiect partneriaeth iechyd meddwl myfyrwyr cenedlaethol AU/AB a datblygu mynegai difrifoldeb iechyd meddwl;
    - Prosiect cam-drin ymhlith cyfoedion;
    - Prosiect Diogelu;
    - Prosiect Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed.

    Am ragor o wybodaeth am brosiectau cysylltwch ag em.cynhwysiant@medr.cymru.

19. Rhaid i ddarparwyr sicrhau eu bod yn ymgysylltu â'u dysgwyr, yn unol â disgwyliadau'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, i lywio gwaith datblygu, adolygu a chyflawni trefniadau i hyrwyddo a chefnogi llesiant dysgwyr.

20. Yn unol â disgwyliadau’r Amod Rheoleiddio Llesiant Staff a Dysgwyr, dylai darparwyr ymgysylltu â chynrychiolwyr staff, gan gynnwys undebau llafur cydnabyddedig, lle bo’n briodol, fel rhan o’u trefniadau i hyrwyddo a chefnogi llesiant staff.

21. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr sy'n derbyn cyllid Medr yn uniongyrchol reoli a gwario eu dyraniadau 2026/27 yn llawn yn ystod y flwyddyn.

22. Mae Medr yn cadw'r hawl i ad-dalu cyllid lle na chaiff ei ddefnyddio yn unol â'r pwrpas a'r amodau a nodir yn y canllaw hwn. Mae hyn yn cynnwys cyllid heb ei wario a nodwyd drwy waith monitro neu wariant anghymwys, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

## Monitro ac adrodd

23. Nid yw'n ofynnol i ddarparwyr gyflwyno cynllun gweithredu annibynnol ar gyfer cyllid Iechyd Meddwl a Llesiant. Yn hytrach, bydd Medr yn defnyddio'r camau gweithredu llesiant dwy flynedd (sy'n ofynnol o dan yr Amod Rheoleiddio Llesiant Staff a Dysgwyr) a chynllun y Gronfa Cymorth a Llesiant i ddeall bwriadau darparwyr yn gysylltiedig â'u gweithgarwch, a'u blaenoriaethau strategol.

24. Disgwylir i ddarparwyr gynnal deialog barhaus â Medr drwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae'r dull hwn yn cefnogi ymyrraeth amserol a datblygiad parhaus ar draws y sector. Gallai hyn gynnwys:
    - Codi materion sy'n dod i'r amlwg neu heriau cyflawni wrth iddynt ymddangos;
    - Darparu diweddariadau drwy gyfarfodydd, rhwydweithiau a gweithgarwch ymgysylltu;
    - Rhannu dysgu ac ymarfer.

25. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gyflwyno ffurflen fonitro diwedd blwyddyn, a dylid rhannu'r templed yn nhymor y gwanwyn 2027. Dylai'r ffurflen roi cyfrif clir sy'n seiliedig ar wybodaeth o'r modd y defnyddiwyd y cyllid, a'r gwahaniaeth a wnaeth, a bydd yn cynnwys y canlynol, o leiaf:
    - crynodeb o ddull cyffredinol y darparydd o ddefnyddio'r cyllid, a sut y defnyddiwyd cyllid yn unol â blaenoriaethau strategol a chynlluniau gweithredu llesiant;
    - trosolwg o'r gweithgareddau allweddol a gyflawnwyd gyda thystiolaeth o'u cyrhaeddiad a'u cyflawniad, fel nifer y dysgwyr a'r staff a gymerodd ran, math a maint y gweithgaredd a gyflawnwyd, a natur y cymorth a ddarparwyd;
    - gwybodaeth am y modd y mae'r gweithgaredd yn cyd-fynd â chynnydd tuag at ymgorffori'r Fframwaith Iechyd Meddwl a Llesiant Cyffredin a gwaith partneriaeth drwy brosiectau a gyllidir;
    - crynodeb ariannol ac unrhyw amrywiant.

26. Rhaid cwblhau'r ffurflen fonitro a'i chyflwyno erbyn 24 Medi 2027.

27. Bydd Medr yn adolygu'r holl ffurflenni monitro i sicrhau bod cyllid wedi'i ddefnyddio yn unol â'r dibenion a'r disgwyliadau a nodir yn y canllawiau hyn.

28. Bydd Medr hefyd yn defnyddio gwybodaeth ar ffurflenni monitro i nodi a rhannu enghreifftiau o arfer, arloesi a dulliau sy'n dod i'r amlwg ar draws y sector. Bydd hyn yn cefnogi dysgu ar y cyd ac yn cyfrannu at ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth iechyd meddwl a llesiant yn barhaus.

29. Cysylltwch â'r Tîm Ehangu Mynediad a Chynhwysiant (em.cynhwysiant@medr.cymru) os oes gennych unrhyw ymholiadau neu am ragor o wybodaeth.

## Asesu effaith ein polisïau

30. Rydym wedi diweddaru ein hasesiad effaith parhaus i ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn sector trydyddol Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau osodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

31. Mae canfyddiadau ein hasesiad effaith yn cynnwys:
    - nodi effeithiau cadarnhaol tebygol ar y nodweddion gwarchodedig canlynol: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol.
    - cadarnhad bod y cyllid yn cefnogi pump o'r saith nod llesiant ac yn rhoi ystyriaeth i'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
    - nodi bod y cyllid a'r gwaith monitro yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**